Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad: Gorolwg o'r ymatebion

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2016

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG28758 ISBN digidol 978 1 4734 6684 5

## 1. Cyflwyniad

Mae gwasanaethau cwnsela awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ar flaen y gad o ran cefnogi iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid ar y cydweithio rhwng y ddau wasanaeth. Cyd-destun ehangach y broses yw strategaeth Llywodraeth Cymru 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl', sy'n nodi'r bwriad i sicrhau bod iechyd meddwl a lles pobl o bob oed yn gwella'n barhaus o ganlyniad i ymrwymiad ar draws y Llywodraeth i annog pob sector i weithio gyda'i gilydd.

Gofynnwyd am sylwadau ar y canllawiau drafft ar 'Cydweithio rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gwasanaethau cwnsela awdurdodau lleol'. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r diwygiadau a wnaed yn dilyn hynny: caiff yr ymatebion manylach eu dogfennu a'u cadw gan Lywodraeth Cymru/eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r crynodeb hwn. Yn dilyn gweithdai ymgynghori cychwynnol gyda rhanddeiliaid a lywiodd y broses o ddatblygu'r canllawiau drafft, dechreuodd yr ymgynghoriad ar-lein ar 16 Hydref 2015 a daeth i ben ar 11 Rhagfyr 2015.

## 2. Rhestr ymatebwyr

| Rhif | Sefydliad |
|---|---|
| 1 | Dienw |
| 2 | Dienw |
| 3 | Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar |
| 4 | Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru |
| 5 | Y Coleg Nyrsio Brenhinol |
| 6 | Dienw |
| 7 | Cyngor Gofal Cymru |
| 8 | Prifysgol Caerdydd |
| 9 | Dr Gareth Price |
| 10 | Dienw |
| 11 | Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion Torfaen |
| 12 | Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan |
| 13 | Dienw |
| 14 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg |
| 15 | CBS Merthyr Tudful |
| 16 | Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot |
| 17 | Cyngor Sir y Fflint |
| 18 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| 19 | Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru |
| 20 | Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP) |

| Rhif | Sefydliad |
|---|---|
| 21 | Adoption UK |
| 22 | Llamau |
| 23 | Y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, Cymru |
| 24 | Gwasanaeth cwnsela awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot (Gwasanaeth Cwnsela Jigsaw) |
| 25 | Coleg Brenhinol Seiciatryddion Cymru |
| 26 | Barnardo's Cymru |
| 27 | SNAP Cymru |
| 28 | Tai Pawb |
| 29 | Gwasanaeth cwnsela awdurdod lleol Sir Ddinbych |
| 30 | Dienw |
| 31 | Y Comisiynydd Plant |

Dewisodd chwe ymatebydd gadw eu hymateb yn gyfrinachol. Nid atebodd pob ymatebydd y cwestiynau yn uniongyrchol; dewisodd rai ohonynt beidio ag ateb cwestiwn penodol ac anfonodd eraill grynodeb o'u sylwadau yn hytrach na'r ffurflen ar y we. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r rheini a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad.

# 3. Materion allweddol

## Prosesau atgyfeirio

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y ffaith na all pob gwasanaeth cwnsela ledled Cymru atgyfeirio achosion i CAMHS sy'n achosi oedi wrth asesu ac ymyrryd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae'r canllawiau drafft yn nodi ei bod yn arfer da rhoi prosesau ar waith er mwyn sicrhau y gall gwasanaethau cwnsela atgyfeirio achosion i CAMHS.

Galwyd hefyd am feini prawf atgyfeirio ar gyfer y ddau wasanaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Nid oes unrhyw feini prawf atgyfeirio penodol ar gyfer gwasanaethau cwnsela, a ddylai fod yn hygyrch i ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 ac i bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed sy'n gwneud cais am y gwasanaeth. Mae CAMHS arbenigol yn rhoi cymorth i'r niferoedd llawer llai o bobl ifanc â'r anghenion dwysaf. Mae meini prawf atgyfeirio yn un o'r canlyniadau a ystyrir gan ffrwd waith CAMHS Arbenigol Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc.

## Canllawiau anstatudol

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn awyddus i'r canllawiau ei gwneud yn ofynnol i'r ddau wasanaeth gydweithio. Ni ellir cyflwyno'r canllawiau hyn fel canllawiau statudol gan nad yw deddfwriaeth bresennol yn ategu trefniadau cydweithio rhwng y ddau wasanaeth. Serch hynny, yn unol â'n hegwyddorion gofal iechyd darbodus, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol a CAMHS ystyried y canllawiau a chymryd camau i feithrin cydberthnasau gwaith agosach er budd plant a phobl ifanc.

# 4. Materion sydd y tu hwnt i gwmpas y canllawiau

Roedd rhai ymatebwyr yn awyddus i'r canllawiau ymdrin â materion eraill, gan gynnwys:

- yr angen i roi cyhoeddusrwydd gwell i'r gwasanaeth cwnsela;
- darpariaeth ehangach i blant o deuluoedd ffoaduriaid;
- cydweithio rhwng meysydd eraill (e.e. rhwng CAMHS a staff ysgolion, CAMHS a'r gwasanaeth seicoleg addysg, CAMHS a'r trydydd sector);
- perfformiad gwasanaethau cwnsela, gan gynnwys cymharu gwasanaethau;
- goruchwylio a hyfforddiant a'r broses gofrestru broffesiynol ar gyfer staff cwnsela;
- sut y gall ysgolion nodi pan fydd angen cymorth gan y gwasanaeth cwnsela neu CAMHS ar ddisgybl;
- anghenion plant sy'n fyddar neu'n anabl;
- gwaith CAMHS ar achosion niwroddatblygu a gweithlu, addysg a hyfforddiant CAMHS;
- safonau gofynnol o ran darparu gwasanaethau arbenigol;
- y materion a gaiff eu hatgyfeirio amlaf i'r gwasanaeth cwnsela[1];
- argaeledd nyrsys ysgol;
- gallu sefydliad o'r trydydd sector i wneud atgyfeiriadau uniongyrchol i CAMHS;
- y grŵp arweinwyr cwnsela cenedlaethol, sy'n darparu cyswllt uniongyrchol rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid y gwasanaeth cwnsela;
- cynnwys gwasanaethau eiriolaeth ar gyfryngau cymdeithasol;
- gwybodaeth i'r trydydd sector o ran cyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl;
- cymorth ym maes iechyd meddwl plant ifancach;
- cymorth i blant a phobl ifanc yn ystod gwyliau ysgol;
- trosglwyddo i wasanaethau oedolion;
- cymorth i blant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi'u mabwysiadu;
- cymorth i bobl ifanc sydd i ffwrdd yn y brifysgol neu'r coleg;
- pwysigrwydd cydberthnasau ymlyniad cynnar ac effaith hirdymor ymlyniad gwael a thrawma cynnar ar iechyd meddwl;
- Teuluoedd yn Gyntaf - gan gynnwys Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd a'r Tîm o Amgylch y Teulu;
- cyfeirio sefydliadau yn y trydydd sector i wasanaethau iechyd meddwl.

Ystyrir bod y materion hyn y tu allan i gwmpas y canllawiau hyn, sy'n canolbwyntio ar gydweithio rhwng CAMHS a gwasanaethau cwnsela. Mae dogfennau canllaw eraill gan Lywodraeth Cymru eisoes yn ymdrin â rhai o'r materion hyn[2]. Caiff yr adborth hwn hefyd ei ystyried gan swyddogion fel rhan o waith ehangach sy'n mynd rhagddo.

---

1 I gael gweld y wybodaeth hon, gweler Siartiau 7 ac 8 o'r datganiad ystadegol "Counselling for Children and Young People, 2013/14 (experimental statistice): http://gov.wales/statistics-and-research/counselling-children-and-young-people/?skip=1&lang=cy

2 Pecyn Cymorth Gweithredu Cwnsela mewn Ysgolion (cyhoeddiad ar y cyd gyda BACP). http://gov.wales/docs/dhss/publications/130709camhsen.pdf
Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc y GIG – Cyngor proffesiynol i gynllunwyr gwasanaethau: http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/camhs/?lang=cy

## 5. Cwestiynau'r ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion

Rhoddodd nifer o ymatebwyr adborth cyffredinol mewn ymateb i Gwestiynau 1 a 2.

**Cwestiwn 1. Ydych chi'n teimlo bod y canllawiau'n rhoi digon o wybodaeth am sut y caiff gwasanaethau cwnsela awdurdodau lleol a CAMHS eu trefnu?**

| Atebodd ydw | Atebodd nac ydw | Atebodd ddim yn siŵr | Dim ymateb uniongyrchol |
|---|---|---|---|
| 15 | 4 | 6 | 6 |
| 48% | 13% | 19% | 19% |

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn fodlon bod y canllawiau'n rhoi digon o wybodaeth am sut y caiff gwasanaethau cwnsela awdurdodau lleol a CAMHS eu trefnu. O ystyried y sylwadau a gafwyd, nid ydym o'r farn bod angen darparu rhagor o fanylion yn y canllawiau o ran sut y caiff y ddau wasanaeth eu trefnu, er y gwneir newidiadau eraill mewn ymateb i rywfaint o'r adborth a gafwyd.

Cafwyd cais am wybodaeth fanylach am sut y dylai gwasanaethau gydweithio.

Ymateb Llywodraeth Cymru: O ystyried y trefniadau gwahanol iawn sydd ar waith mewn gwahanol fyrddau iechyd lleol ac ardaloedd awdurdodau lleol, teimlwyd na fyddai'n fuddiol nodi manylion am sut y dylai gwasanaethau gydweithio. Mae angen i wasanaethau ddatblygu trefniadau sy'n addas ar gyfer eu hamgylchiadau lleol eu hunain. Dengys yr astudiaethau achos y gellir cydweithio, ac mae gwahanol ardaloedd wedi mynd ati i wneud hynny mewn ffyrdd gwahanol.

Awgrymwyd na ddylai'r canllawiau gynnwys gwybodaeth am ba ddarparwyr cwnsela a oedd yn cael eu defnyddio mewn ardaloedd awdurdodau lleol, gan y byddai angen diweddaru'r canllawiau pan fyddai trefniadau cytundebol yn newid.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Caiff y wybodaeth hon ei dileu o fersiwn terfynol y canllawiau.

Nodwyd nad oedd y canllawiau yn adlewyrchu'r ffaith y gellir darparu gwasanaethau cwnsela y tu allan i'r ysgol hefyd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Byddwn yn diwygio'r canllawiau er mwyn adlewyrchu hyn.

Roedd un ymatebydd o'r farn nad oedd cyfeirio at haenau CAMHS yn gydnaws â'r Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Er ein bod yn ceisio osgoi cyfeirio at haenau CAMHS drwy ddefnyddio terminoleg megis sylfaenol, eilaidd/arbenigol a chleifion mewnol, er mwyn sicrhau eglurder, cyfeiriwyd at haenau yn y canllawiau er mwyn dangos yr amrywiaeth o wahanol wasanaethau a'r gwasanaethau cyfatebol i oedolion.

Roedd pryderon hefyd efallai ei bod yn rhy gynnar i lunio'r canllawiau o ystyried Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae'r canllawiau yn nodi ffordd o weithio y gellir ei dilyn ar unwaith, ond a fydd hefyd yn gydnaws â nodau tymor hwy. Mae gwella trefniadau cydweithio rhwng CAMHS a'r gwasanaethau cwnsela yn cydblethu â'r agenda strategol ehangach, gan gynnwys rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc.

**Cwestiwn 2. A oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau y dylid ei gynnwys, yn eich tyb chi? (Os oes, rhowch fanylion)**

| Atebodd oes | Atebodd nac oes | Atebodd ddim yn siŵr | Dim ymateb uniongyrchol |
|---|---|---|---|
| 16 | 5 | 4 | 6 |
| 52% | 16% | 13% | 19% |

Roedd 52% o'r ymatebwyr o'r farn y dylid cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y canllawiau, er yr ystyriwyd bod nifer o'r awgrymiadau y tu allan i gwmpas y canllawiau, fel yr amlinellir yn Adran 4.

Mae'r newidiadau eraill a awgrymwyd i'r canllawiau fel a ganlyn:

- cyfeirio at weithdrefnau diogelu a gweithdrefnau diogelu lleol;
- lle bo awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau cwnsela drwy gontractau allanol, cynnwys y gofyniad i gydweithio â CAMHS ym manyleb y tendr;
- teuluoedd a gofalwyr yn rhan o'r gydberthynas gydweithio rhwng gwasanaethau cwnsela a CAMHS;
- cyfeirio at enghreifftiau lle mae'n rhaid i wasanaethau weithio ar draws ffiniau.

Adlewyrchir yr awgrymiadau uchod yn y canllawiau diwygiedig.

Nodwyd nad oedd y canllawiau yn sôn am unrhyw gamau y gellid eu cymryd yn y dyfodol tuag at ddull unffurf o gyflwyno arfer da.

Ymateb Llywodraeth Cymru:  Os caiff cynigion i leihau nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru eu rhoi ar waith, bydd cyfle i weithio gyda'r awdurdodau a fydd yn uno i ystyried arfer gorau fel rhan o'r broses o sefydlu'r Awdurdodau newydd.

Codwyd pryderon hefyd nad oedd y canllawiau yn adlewyrchu'r ffaith y gellir darparu gwasanaethau cwnsela y tu allan i'r ysgol hefyd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Fel y nodwyd o dan Cwestiwn 1, byddwn yn diwygio'r canllawiau er mwyn adlewyrchu hyn.

Roedd un ymatebydd yn pryderu nad oedd plant a phobl ifanc wedi cael eu cynnwys wrth ddatblygu'r canllawiau.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Ystyriwyd y posibilrwydd o gynnwys pobl ifanc wrth ddatblygu'r canllawiau, ond ni theimlwyd ei bod yn briodol gan mai'r bwriad oedd creu dogfen dechnegol fer wedi'i hanelu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes iechyd meddwl.

**Cwestiwn 3. A ydych chi'n ymwybodol o enghreifftiau o arfer da o ran cydweithredu rhwng gwasanaethau cwnsela a CAMHS y dylid cyfeirio atynt yn y canllawiau? (Os ydych, rhowch fanylion)**

| Atebodd ydw | Atebodd nac ydw | Atebodd ddim yn siŵr | Dim ymateb uniongyrchol |
|---|---|---|---|
| 6 | 15 | 2 | 8 |
| 19% | 48% | 6% | 26% |

Darparwyd pob un o'r astudiaethau achos yn y canllawiau drafft gan randdeiliaid, a chynigiodd rhai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad astudiaethau achos pellach.

Nododd un ymatebydd dienw o fwrdd iechyd lleol er bod y canllawiau yn cynnwys astudiaethau achos o'i ardal, na enwyd y bwrdd iechyd. Y rheswm am hyn yw bod yr astudiaethau achos hynny yn cyfeirio at bobl ifanc benodol; ni ddatganwyd y lleoliad gan fod perygl y gellid adnabod y bobl ifanc hynny.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â rhai o'r ymatebwyr i ofyn am astudiaethau achos ychwanegol perthnasol i'w cynnwys yn y canllawiau.

**Cwestiwn 4. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.**

| Sylwadau pellach | Dim sylwadau pellach |
|---|---|
| 20 | 11 |
| 65% | 35% |

Roedd gan 65% o'r ymatebwyr sylwadau ychwanegol. Mae rhai o'r materion a godwyd y tu allan i gwmpas y canllawiau, fel y nodir yn Adran 4. Nodir y materion eraill a godwyd isod:

Codwyd pryder hefyd ynghylch yr amseroedd aros ar gyfer CAMHS, a'r ffaith y byddai'n rhaid i gwnselwyr wedyn o bosibl barhau i roi cymorth i'r person ifanc heb feddu ar y sgiliau y byddai gweithwyr arbenigol proffesiynol CAMHS yn meddu arnynt.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Dylai'r buddsoddiad newydd yn CAMHS leihau amseroedd aros ac mae gwasanaethau wedi rhoi blaenoriaeth i fentrau sy'n ymdrin â rhestrau aros eleni, cyn mynd ati i recriwtio staff. Yn ogystal, o fis Tachwedd 2015, mae targedau amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol lleol wedi lleihau o 56 diwrnod i 28.

Nodwyd bod ariannu gwasanaethau cwnsela hefyd yn broblem.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Trosglwyddwyd cyllid ar gyfer gwasanaethau cwnsela i Grant Cynnal Refeniw awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2013. Nid yw'r Grant Cynnal Refeniw wedi'i neilltuo sy'n golygu y gall awdurdodau lleol benderfynu sut y dylid ei wario yn ôl anghenion a blaenoriaethau lleol.

Awgrymwyd y dylid rhoi proses fonitro ar waith er mwyn olrhain hynt y gwaith hwn, ac er mwyn gallu rhannu arfer da gyda rhanddeiliaid. Cyfeiriodd yr ymatebydd hefyd at ddeddfwriaeth sy'n anelu at gynyddu trefniadau gweithio mewn partneriaeth ar draws asiantaethau er budd iechyd a lles defnyddwyr gwasanaethau.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Caiff y canllawiau hyn a'u heffaith eu hadolygu maes o law, ar ôl ad-drefnu llywodraeth leol a'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar CAMHS, gan y bydd y ddwy fenter hyn yn cael effaith ar y ffordd y trefnir y ddarpariaeth o fewn y ddau wasanaeth. Rydym yn disgwyl i wasanaethau ystyried deddfwriaeth sydd eisoes yn weithredol, er mwyn hwyluso trefniadau cydweithio rhwng gwasanaethau.

Roedd un ymatebydd yn pryderu nad oes gan wasanaethau cwnsela mewn ysgolion, fel proffesiwn, sail statudol ac nad yw pob awdurdod lleol yn trefnu contractau allanol ar gyfer darpariaeth cwnsela. Roedd o'r farn bod hyn yn cael effaith andwyol ar annibyniaeth y gwasanaeth cwnsela.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Nid oes gan y proffesiwn cwnsela sail statudol yn y DU, ond gall cyrff cwnsela gynnal cofrestr broffesiynol gyda'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA). Mae'r Awdurdod yn cynnal asesiadau annibynnol o sefydliadau sy'n cofrestru ymarferwyr, na chânt eu rheoleiddio gan y gyfraith, sy'n gweithio fel rhan o'r GIG ac yn annibynnol ar y GIG.

Mae annibyniaeth y gwasanaeth cwnsela yn cyfeirio at annibyniaeth y gwasanaeth ar yr ysgol, yn hytrach na'r awdurdod lleol. Fel y nodir yn ein dogfen 'Canllawiau statudol i awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch darpariaeth gwasanaethau cwnsela annibynnol', 'Wrth ddarparu gwasanaethau cwnsela, rhaid i'r cwnselydd fod yn annibynnol ar yr ysgol neu'r sefydliad addysgol arall lle caiff y gwasanaeth ei ddarparu i bobl ifanc, a rhaid ei bod yn amlwg ei fod yn annibynnol arnynt.' Serch hynny, disgwylir i gwnselwyr weithio fel rhan o gymuned yr ysgol, gan ddeall a pharchu ethos yr ysgol.

## Adborth cyffredinol

Darparodd un ymatebydd sylwadau golygu manwl.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Caiff y canllawiau drafft eu hadolygu o ystyried y sylwadau hyn, a'u diwygio fel y bo'n briodol.

Cyfeiriodd un ymatebydd at y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol, ad-drefnu llywodraeth leol ac amrywiol adolygiadau'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion eithriadol fel cyfrwng o wella trefniadau cydweithio a threfniadau cynllunio a darparu cydgysylltiedig. Roedd hefyd am weld gwell defnydd o systemau technoleg diogel ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Rydym yn cydnabod bod dull gweithredu cydweithredol a chydgysylltiedig gan asiantaethau mewn perthynas â phob agwedd ar ddarparu gwasanaethau yn hanfodol er mwyn sicrhau effeithiolrwydd. Dim ond un rhan o'n dull gweithredu mwy cyffredinol mewn perthynas â gwella trefniadau cydweithio aml-asiantaeth yw'r canllawiau hyn. Mewn perthynas â defnyddio systemau technolegol diogel, bydd y System Gwybodaeth Gofal Cymunedol (WCCIS) yn adnodd cyffredin i'w ddefnyddio ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y protocolau diogelwch a mynediad priodol yn cael eu rhoi yn eu lle ar gyfer y system a bydd unrhyw unigolion a fydd yn defnyddio'r system yn cael eu cofnodi drwy'r adnodd Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Archwilio Integredig Deallus (NIIAS).